



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 03/2020

**Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl – Aseidiadau Diagnostig  
ar gyfer Myfyrwyr ag Anawsterau Dysgu Penodol.**

Yng nghyd-destun y canllawiau ymbellhau corfforol sydd yn eu lle ar hyn o bryd i leihau'r achosion o Covid-19, gwnaeth y Pwyllgor Safonau Asesu Anawsterau Dysgu Penodol (SASC) ystyried yn ddiweddar a yw'n bosibl cynnal asesiadau diagnostig ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol o bell yn hytrach na chael asesiad wyneb yn wyneb. Daeth SASC i'r casgliad nad oes modd cynnal asesiad diagnostig o bell, ond ei bod yn bosibl i aseswyr gynhyrchu gwerthusiad dros dro proffesiynol o angen ar sail cyfweiliad diagnostig a sgrinio o bell<sup>1</sup>. Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth byr hwn gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn ceisio egluro'r sefyllfa o ran pa dystiolaeth y gallai'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ei dderbyn ar gyfer bod yn gymwys ar gyfer Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.

Er y byddai angen, o dan amgylchiadau arferol, cyflwyno asesiad diagnostig llawn o Anawsterau Dysgu Penodol fel tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, nid ydym yn dymuno gweld unrhyw oedi wrth i fyfirwyr geisio cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt drwy Lwfansau i Fyfirwyr Anabl. Felly, rydym wedi penderfynu y bydd ymgeiswyr nad ydynt eisoes wedi cael asesiad diagnostig llawn ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol yn gallu, dros dro, cyflwyno **gwerthusiad o angen** a gynhelir unol â chanllawiau SASC, ac y bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn derbyn hwn fel tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.

Mae hyn yn golygu y bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr yn derbyn gwerthusiadau o angen sydd wedi'u cynnal hyd at **31 Awst 2020** (ac yn cynnwys y dyddiad hwnnw). O ystyried yr ansicrwydd presennol ynghylch sefyllfa Covid-19, byddwn yn parhau i adolygu'r dyddiad hwn a bydd unrhyw estyniad i'r dyddiad cau hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Ni fydd disgwyl i fyfirwyr sy'n gymwys i dderbyn Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ar sail gwerthusiad o angen ddarparu asesiad diagnostig llawn yn ddiweddarach i gadarnhau eu bod yn gymwys, oni bai eu bod yn gwneud cais newydd am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (er enghraifft, os ydynt ar gwr israddeg ar hyn o bryd ac yn ddiweddarach yn gwneud cais am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ar gyfer cwrs ôl-radd).

Dylai darparwyr nodi bod yn rhaid i bob gwerthusiad o bell gynnwys geiriad y 'datganiad penodol' yn unol â'r canllawiau SASC<sup>2</sup> er mwyn i'r gwerthusiad fod yn dderbyniol.

---

<sup>1</sup> Mae'r canllawiau SASC perthnasol ar gael yn:

<https://sasc.org.uk/SASCDocuments/Diagnostic%20assessment%20online-SASC%20position%20paper%20March%202020%20final.pdf> a

<https://sasc.org.uk/SASCDocuments/Physical%20Distancing%20and%20SpLD%20Assessment%20SASC%20Guidance%20May2020.pdf>

<sup>2</sup><https://sasc.org.uk/SASCDocuments/Physical%20Distancing%20and%20SpLD%20Assessment%20SASC%20Guidance%20May2020.pdf>